

# ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD TACHWEDD 2015



## Llun ysgol gyfan

Unwaith bob pum mlynedd caiff llun ysgol gyfan ei dynnu fydd yn sicrhau y bydd llun o bob plentyn ysgol ar gof a chadw. Cafwyd bore sych, braf ond ychydig yn wyntog ar gyfer tynnu'r llun rai wythnosau'n ôl a phawb yn edrych yn daclus. Erbyn hyn mae copi o'r llun wedi ei fframio ac mae i'w weld ar brif goridor yr ysgol.

## Noson Agored

Cynhaliwyd noson agored yn yr ysgol ar Hydref 20fed ar gyfer disgyblion Bl.5 a 6 ysgolion cynradd y dalgylch. Dyma gyfle ardderchog i ddarpar ddisgyblion a'u rhieni i gael blas ar yr hyn sydd gan Ysgol Eifionydd i'w gynnig. Cafwyd noson lwyddiannus iawn a'r adborth yn hynod bositif. Diolch yn fawr i'r disgyblion fu'n helpu ar y noson.

## Noson Tân Gwyllt

Yn ystod y mis bu cyrychiolwyr yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn yr ysgol yn rhoi cyflwyniad i'r disgyblion ar beryglon Noson Tân Gwyllt. Roedd yn gyflwyniad hynod ddifyr ac yn fuddiol iawn i sicrhau diogelwch i'r digyblion a'r trigolion lleol.

## Ymweliad y Gideoniaid

Yn ôl yr arfer bu'r Gideoniaid yn ymweld â'r ysgol er mwyn cyflwyno copi o'r Testament Newydd i ddisgyblion Blwyddyn 7. Mae'r Gideoniaid yn ymweld yn flynyddol ers blynyddoedd lawer ac yr ydym bob amser yn falch o'u gweld.

## Cyflwyniad 'Bin It'

Fore Iau, Tachwedd 5ed cafodd disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 gyflwyniad 'Bin It'. Roedd hwn yn gyflwyniad hynod egniol oedd yn ceisio esbonio pam fod pobl yn gollwng sbwriel a'r effaith mae hyn yn gael ar ein hamgylchedd. Cafodd nifer fawr o blant gyfle i ateb cwestiynau a chymryd rhan yn y cyflwyniad hwyliog hwn. Nod y cyflwyniad oedd annog y disgyblion i daflu eu sbwriel yn y biniau pwrpasol er mwyn creu amgylchedd glan a thaclus yn yr ysgol ac yn y gymuned. Roedd yn gyflwyniad gwerth chweil fydd yn aros yn y cof am amser hir a'r plant wedi mwyhau a dysgu llawer ar yr un pryd.

## Ymarferion Cyngerdd Nadolig yr ysgol

Cynhelir Cyngerdd Nadolig yr ysgol nos Lun, Rhagfyr 14eg. Mae nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol yn brysur iawn yn ymarfer ar gyfer y cyngerdd, dan arweiniad Miss Lona Williams. Croeso cynnes i bawb.

## Cyngor Ysgol

Yn dilyn trafodaethau gan y Cyngor Ysgol am bresenoldeb penderfynwyd y dylid gwobrwyo disgyblion sydd â phresenoldeb o 100% gyda tystysgrifau/neges destun i'r cartref bob hanner tymor. Bydd cyfle i bob disgybl fydd â phresenoldeb o dros 98% i ennill iPad cyn hanner tymor mis Chwefror. (Ni fydd disgyblion sydd yn hwy yn cofrestru yn cael eu cynnwys.) Yn ogystal â hyn, bydd cystadleuaeth rhwng y grwpiau cofrestru am y presenoldeb uchaf. Bydd un grŵp buddugol yn CA3 ac un o CA4 yn cael trip dydd Gwener, 18 Rhagfyr, 2015. Gobeithio y bydd cynlluniau y Cyngor Ysgol yn dwyn ffrwyth.

## **Chwaraeon**

### **Nofio**

Llongyfarchiadau mawr i Medi Harris, Morgan a Lora Lukacs fu'n cystadlu yng ngala nofio John Sharp ym mhwl nofio Llandudno dros y penwythnos. Llongyfarchiadau hefyd i Iago Rhys fu'n nofio mewn cystadlaethau nofio yn Llandudno'n ddiweddar, gan ddod yn drydydd mewn pedair ras. Dymuniadau gorau i chi yn y dyfodol a braf gweld fod yr holl ymarfer yn talu ar ei ganfed.

### **Pêl droed**

Llongyfarchiadau mawr i Cassia Pike sydd wedi bod yn Hwngari yn chwarae pêldroed gyda carfan merched Cymru. Mae Cassia a Shannon Dukes yn treulio cyfnodau yn ymarfer gyda'r garfan yn Ne Cymru, ond yn anffodus bu i Shannon gael anaf i'w phenglin cyn y daith i Hwngari. Dymuniadau gorau i chi yn y dyfodol genod.

Llwyddodd tîm bechgyn Bl.7 i guro Ysgol Glan y Môr o 5 gôl i 1. Llwyddodd tîm Bl.9 i guro Ysgol Botwnnog ar giciau cosb. Da iawn chi hogia!

### **Rygbi**

Llongyfarchidau calonnog i dimau rygbi bechgyn Bl.11 a Bl.9. Llwyddodd bechgyn Bl.11 i guro Ysgol y Moelwyn o 53 i 0. Llwyddodd bechgyn Bl.9 i guro Ysgol y Moelwyn o 25 i 10. Daliwch ati hogia!